**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**1/11/22**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Euros Roberts (Is-gadeirydd), Huw Antur, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** Aelodau Sylfeini am ran o'r cyfarfod; derbyniwyd ymddiheuriad gan aelodau o Grŵp Cynefin am eu hanallu i fod yn bresennol oherwydd salwch.

Lluniwyd cwestiynau ar gyfer Cynefin.

Cytunodd Alwyn E Jones a'r Clerc geisio trefnu cyfarfod gyda Craig ap Iago a Carys Fôn i drafod stoc hen dai yn y pentref. Mae angen trafodaeth gyda'r Parc am y ffin datblygu ar gyfer cartrefi newydd preifat.

2411 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, a llongyfarchodd pawb o'r ardal sy'n rhan o gyflwyniad Cwmni Theatr Maldwyn o "Y Mab Darogan".

2412 Derbyniwyd Ymddiheuriadau Llinos Edwards, Rhodri Jones, Dewi Wyn Jones.

2413 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2414 **Cofnodion 4/10/22** – cadarnhawyd cywirdeb y Cofnodion.

2415 **Materion y Clerc:**

i. Cynllun Hyfforddiant – ystyriwyd a chymeradwywyd; nodwyd y goblygiadau ariannol.
ii. Deddf Rhyddid Gwybodaeth – ni ddaeth ymateb i'r cais am data damweiniau ar yr A494. Bydd y Clerc yn ymholi eto.
iii. Eglwys Deiniol Sant – derbyniwyd gwahoddiad gan awdurdodau'r Eglwys i drafod y dyfodol yr adeilad; holir am fap o'r tir.

2416 **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans. Dywedodd ei fod yn cyfarfod swyddog newydd Adran Cefnffyrdd yn fuan i drafod ardal Stryd y Prys. Mae gorchymyn wedi ei wneud am ddrych newydd. Mae tocio'r clawdd i'r de o'r cyffordd wedi gwella gwelededd.

Bydd yn cyfarfod Swyddog arall o Adran y Cefnffyrdd i drafod mesurau i atal gor-yrru yn ardal y Garneddwen.

Mae'r coed a oedd yn tyfu ar hen bont y rheilffordd yn Ty'n Ddôl wedi eu torri'n ôl.

Mae'r broses gyfreithiol wedi cychwyn ar gyfer gosod llinellau melyn yn yr ardal lle mae'r bws yn troi'n ôl wrth Y Felin.

Bydd yn cyfarfod gyda'r Heddlu i drafod lladrata sydd wedi bod yn boen yn ddiweddar. Cytunwyd i ysgrifennu at yr Heddlu i gyfleu pryderon lleol ac i holi am werth gosod system camerâu cylch cyfyng.

Holwyd am osod llinellau melyn dwbl i fod o gymorth i gerbydau wrth ddod allan o Maesypandy.

Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei waith dros y gymuned.

2417 **Is-bwyllgorau** – derbyniwyd adroddiadau.

i. Grŵp Datblygu: cafwyd trafodaeth fuddiol gyda Planning Aid Wales. Cytunwyd i gysylltu gydag Elin Hughes, Parc Cenedlaethol Eryri, am gyngor ar sut i fabwysiadu'r Cynllun Ardal a'i ymgorffori fel atodiad i Gynllun y Parc. Gellir cynnwys trafodaeth ar y ffin datblygu yr un pryd. Cytunwyd hefyd i drefnu achlysur cymdeithasol gyda'r gymuned er mwyn cyflwyno'r Cynllun a derbyn awgrymiadau – bydd trefnu hyn ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
ii. Mynwentydd: derbyniwyd adroddiad manwl a chytunwyd gyda'r argymhellion (gan gofio am anghenion bioamrywiaeth).
Mynwent yr Eglwys – nifer o fân bethau angen eu gwneud ar ôl ymweliad swyddogion yr Eglwys. Mae'r yw yn cyffwrdd y llawr ond byddai'n werth derbyn cyngor gan arbenigwr o Parc Cenedlaethol Eryri ar y ffordd orau i'w trin gan eu bod mor hynafol. Bydd gwaith yn cael ei wneud i ddiogelu wal y fynwent. Bydd llain o dir yn cael ei dorri un waith y flwyddyn yn unig, ym Medi, er mwyn hybu natur. Mae angen trwsio cist.
Y Fynwent Newydd: Diolchwyd i Huw P Roberts am wirfoddoli i blygu gwrych. Cynigwyd plannu gwrych wrth fynedfa'r maes parcio. Trafodwyd creu llwybr i osgoi'r giât, a bydd angen gwaredu bonyn y ddwy onnen a gwympwyd. Bydd Alwyn M Roberts yn ymholi am y cyfraniad o bridd yn y maes parcio. Cytunodd Swyddog y Fynwent i holi am y gwaith efo'r cyrbiau.
iii. Bioamrywiaeth: rhoddodd y Clerc adroddiad o'r Gynhadledd ar lein a fynychodd ar 27/10/22. Mae un o bob chwech o rywogaethau Cymru o dan fygythiad, ac mae'n ddyletswydd ar Gynghorau i weithredu i warchod natur. Mae cymorth ar gael gan nifer fawr o fudiadau ac asiantaethau. Mae ecoleg yn ffactor bwysig a rhaid bod yn ofalus fod yr hyn sy'n cael ei blannu yn gweddu i'r cynefin. Roedd neges glir fod natur ar ei orau pan na fydd wedi ei dacluso.
iv. Nadolig: mae'r pwyllgor yn mynd i weithredu'n debyg i llynedd. Derbyniwyd cais gan Dafarn yr Eryrod i osod coeden Nadolig yn y fynwent.
v. Asedau: bydd Alwyn M Roberts yn adrodd yn y cyfarfod nesaf am y draeniau wrth y cyfleusterau. Diolchwyd i deulu Caer Meini am gymryd y meinciau dros y gaeaf. Bu trafodaethau yng nglyn a giât Llwybr Cei a'r ciosg.
vi. Cyllid: dylai is-bwyllgorau anfon eu hanghenion cyllid am 2023-24 yn fuan iawn.

2418 **Materion Ariannol:** Cymeradwywyd taliadau fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Nwyddau'r Cyfleusterau | | £71.62 |
| Cygor Gwynedd – | Etholiad Cynghorau Mai | £107.00 |
| Mantell Gwynedd – | Aelodaeth | £10.00 |

| | |
|---|---|
| Paratoi cyflogau | £300.00 |
| ICO – aelodaeth | £35.00 |
| Torri gwair yr Eglwys | £560.00 |
| Gwaith Trydanol | £171.12 |

Taliadau o dan Cytundebau: Cyflog Clerc; CThEM ; glanhau'r Cyfleusterau

Cytunwyd i brynu cyflenwad o bapur ac i dalu traean tal aelodaeth SLCC.

2419 **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a ddywedodd bod Canolfan Henblas yn rhedeg yn esmwyth.

2420 **Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau.

2421 **Gohebiaeth:** Nodwyd a thrafodwyd -

i. Llywodraeth Cymru: Comisiwn ffiniau
ii. Llywodraeth Cymru: Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol
iii. Llywodraeth Cymru: Adroddiad ar Asedau Cymunedol
iv. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar drefniadau etholiadol
v. Llyn Celyn – cyfle i weld y cynlluniau
vi Pwyllgor Un Llais Cymru ardal Meirionnydd 9/11/22 Z

2422 **Materion lleol y Cynghorwyr**

i. Gwrych wrth Ysgol O M Edwards: mae'r Cynghorydd Alan Jones Evans yn trefnu tocio'r mieri.
ii. Bydd y Cynghorydd Alan Jones Evans yn holi Adran Eiddo Cyngor Gwynedd am berchnogaeth Pwmp y Llan a'r tir o'i gwmpas.
iii. Gwnaethpwyd cais am ysgubo'r dail yn gynt yn y pentref eleni.
iv. Rhoddodd Huw Antur amlinelliad o'r gwaith a'r bwriadau ar gyfer Gweithdy'r Saer.

2423 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 6/12/22 yn y Neuadd Bentref am 7.30pm (Bydd aelodau Sylfeini a Cynefin yn bresennol.)

*Amser gorffen: 9.45pm*